**Cofnod Penderfyniadau:**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**Decision Record:**
**Police and Crime Commissioner for North Wales**

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

| | |
|---|---|
| | **Rhan 1 / Part 1** |
| | **Cyf/Ref: DM.2023.02** |
| **Teitl:** | **Title:** |
| Gorsaf Heddlu Cefn Mawr | Cefn Mawr Police Station |
| **Crynodeb Gweithredol:** | **Executive Summary:** |
| Mae Gorsaf Heddlu Cefn Mawr wedi'i nodi fel lle sydd bellach yn ddiangen ac felly y bwriad yw cael gwared arni.<br>Mae'r Rheoliadau Ariannol yn dweud fod gwarediadau cyfalaf i'w gwneud ar y telerau gorau sydd ar gael. Ar yr un pryd, mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gofio am werth cymdeithasol wrth ffurfio cytundebau.<br>Penderfynwyd gwerthu'r eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am £180,000, sydd tuag at ben uchaf yr ystod fel yr aseswyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Ar ben hyn, ychwanegir cyfamod, er mwyn sicrhau fod y defnydd wedi'i gyfyngu i dai cymdeithasol. | Cefn Mawr Police Station has been identified as surplus to requirements and is therefore to be disposed of.<br>The Financial Regulations state that capital disposals are to be made on the best terms available. At the same time, the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015 requires public bodies in Wales to be mindful of social value when forming contracts.<br>It has been decided to sell the property to Wrexham County Borough Council for £180,000, which is towards the higher end of the range as assessed by the Valuation Office Agency. In addition, a covenant is to be added, to ensure the use is restricted to social housing. |
| **Goblygiadau:** | **Implications:** |
| Ariannol – derbyn £180,000 o gyfalaf ar ôl gorffen y gwerthiant<br>Cynllun Heddlu a Throsedd – defnydd parhaus o'r eiddo er budd y cyhoedd yn unol ag amcanion cyffredinol y cynllun heddlu a throsedd<br>Y Gymraeg – dim<br>AD – dim<br>Cydraddoldeb – dim | Financial – £180,000 capital receipt upon completion of the sale<br>Police and Crime Plan – the continued use of the property for the public good is in line with the general aims of the police and crime plan<br>Welsh language – none<br>HR – none<br>Equality – none |
| **Prif Weithredwr a Swyddog Monitro:** | **Chief Executive and Monitoring Officer:** |
| *Rwyf yn cadarnhau fod hwn yn gais priodol i'w gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, ~~neu~~*<br><br>*~~Mae angen tystiolaeth bellach cyn y gellir cyfeirio'r mater hwn at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.~~*<br><br>*Cyhoeddir Rhan 1 o'r ddogfen hon. Ystyrir Rhan 2 o'r ddogfen hon wedi'i heithrio [A43 – sensitif yn fasnachol]*<br><br>***Cyhoeddir 11 Mawrth 2024 yn dilyn y gwerthiant*** | *I confirm that this is an appropriate request to be submitted to the Police and Crime Commissioner, ~~or~~*<br><br>*~~Further evidence is required before this matter can be referred to the Police and Crime Commissioner.~~*<br><br>*Part 1 of this document is to be published; Part 2 of this document is considered exempt [S43 – commercially sensitive]*<br><br>***Published 11 March 2024, following completion of the sale.*** |
| **Llofnod / Signature:** | **Dyddiad/Date** |

**Cofnod Penderfyniadau:**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**Decision Record:**
**Police and Crime Commissioner for North Wales**

| | |
|---|---|
| | **30 Ionawr / January 2023** |

| **Cymeradwyaeth a sylwadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd** | **Approval and comments of Police and Crime Commissioner** |
|---|---|
| Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi ystyried a oes gen i unrhyw ddiddordeb personol neu niweidiol yn y mater hwn, ac yn cymryd y penderfyniad arfaethedig mewn cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus. Rwyf yn cymeradwyo'r cais uchod. | I confirm I have considered whether I have personal or prejudicial interest in this matter and take the proposed decision in compliance with the Nolan Principles for Conduct in Public Life. The above request has my approval. |
| Llofnod / Signature: | |
| *Andy Dunbobbin*<br>*Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Police and Crime Commissioner*<br>Dyddiad/Date: 30 Ionawr / January 2023 | |